Mae'r gwaed a redodd ar y groes

Caneuon Ffydd: Rhif 492

Mae'r gwaed a redodd ar y groes
o oes i oes i'w gofio;
rhy fyr yw tragwyddoldeb llawn
i ddweud yn iawn amdano.

Prif destun holl ganiadau'r nef
yw "Iddo ef" a'i haeddiant;
a dyna sain telynau glân
ar uchaf gân gogoniant.

Mae hynod rinwedd gwaed yr Oen
a'i boen wrth achub enaid
yn seinio'n uwch ar dannau'r nef
na hyfryd lef seraffiaid.

'Mhen oesoedd rif y tywod mân
ni fydd y gân ond dechrau;
rhyw newydd wyrth o'i angau drud
a ddaw o hyd i'r golau.

Ni thraethir maint anfeidrol werth
ei aberth yn dragywydd:
er treulio myrdd o oesoedd glân
ni fydd y gân ond newydd.

ROBERT AP GWILYM DDU,
1766–1850

MYFYRDOD

Roedd y ddeunawfed ganrif yn prysur hel ei thraed ati pan oedd Robert ap Gwilym Ddu yn dod yn amlwg fel bardd. Roedd llawer iawn o bethau'n newid: yr anterliwt a'r canu carolaidd a'r baledi yn prysur ddarfod, a'r beirdd yn cael eu harwain i roi eu hegnïon i gyfeiriadau a ffurfiau eraill. Dywedir am Robert ap Gwilym Ddu ei fod yn fardd gwir fawr, ond yn ôl yr Athro W. J. Gruffydd: 'Ni chafodd Robert ap Gwilym Ddu ond ychydig iawn o barch y cyhoedd, ac adwaenid ef gan mwyaf fel awdur un emyn. Eto Robert ap Gwilym Ddu oedd yr artist mwyaf yn yr iaith Gymraeg a welodd can mlynedd a hanner o brydyddiaeth'. (*Y Llenor*, IV, 10).

A'r un emyn hwnnw a roddodd gymaint o enwogrwydd iddo, ac a olygodd efallai fod llai o sylw i'w weithiau eraill, ydy'r un o'n blaenau ni yma a'r un a gafodd y teitl 'Cân Newydd' gan ei awdur pan ymddangosodd gyntaf yn *Seren Gomer* ym 1824, ond bod saith pennill yn y gwreiddiol, a ninnau bellach gyda dim ond pump. Canodd Robert ap Gwilym Ddu lawer am ddioddefaint y groes, fel llawer emynydd arall o gyfnod y diwygiadau yng

Nghymru a gafodd gip ar 'anfeidrol werth ei aberth' a sylweddoli bod 'tragwyddoldeb llawn' yn 'rhy fyr' 'i ddweud yn iawn amdano'.

Yn ôl traddodiad, Anne Wynne, un o chwiorydd Robert, a gafodd ei hannog, ar ddiwedd cyfarfod gan y Bedyddwyr yn ei chartref yng Nghefncymerau yn Llanbedr ger Harlech, i ofyn i'w brawd gyfansoddi rhywbeth addas ar gyfer y cymun gan ei fod yn 'dipyn o fardd'. Gofynnodd Anne i'w brawd ar ei hymweliad nesaf â'i hen gartref yn y Betws Fawr ym mhlwyf Llanystumdwy, ac addawodd yntau y byddai ganddo rywbeth iddi erbyn iddi ddychwelyd adref. Yr emyn hwn yr aeth hi adref gyda hi i'w ganu gyda'r cwmni bychan o Fedyddwyr a gyfarfyddai yn ei thŷ.

Tyfodd yr emyn yn annwyl gennym fel Cymry wrth iddo gael ei gysylltu'n arbennig â'r gwasanaeth cymun. Pwy ond gwir fardd a allai gael ei ysbrydoli i *glywed* 'hynod rinwedd gwaed yr Oen . . . '*yn seinio*', ac fe'i clywn yn canu'n felys, a hynny'n 'uwch ar dannau'r nef na hyfryd lef seraffiaid'.

Disgrifia T. Rowland Hughes effaith clywed pennill cyntaf yr emyn, ac fe ddichon ei fod yn adrodd o'i brofiad, yn ei bennod ar 'F'ewythr Huw' yn ei nofel *O Law i Law* (tud. 147):

'Yr emyn hwnnw, "Mae'r gwaed a redodd ar y groes", oedd hoff emyn F'ewythr Huw, ac adroddai'r pennill cyntaf yn y Seiat yn aml yn lle dweud adnod . . . "Mae'r gwaed," meddai, gan godi ei lygaid i nenfwd y capel ac aros ennyd fel petai'n gwrando ar ei lais clir a threiddgar ei hun yn crwydro o amgylch y distawrwydd. Yna gwelech y gwaed yn rhedeg, nid yn diferu, ar bren gwrthun y groes, a chaech yn y frawddeg "o oes i oes" ryw amgyffrediad rhyfedd o dreigliad araf amser. "Rhy fyr," meddai f'ewythr, "yw tragwyddoldeb llawn," a theimlech fod tragwyddoldeb yn ymchwyddo ac yn ymgyrraedd fel môr diderfyn yn arafwch ysgubol y geiriau.'

GWEDDI

Diolch iti, Arglwydd, fod yr emyn hwn o'i ganu a'i adrodd wrth fwrdd cymun ac wrth gofio am dy aberth, wedi magu rhyw gysegredigrwydd o'i gwmpas. Gad i genhedlaeth godi eto yn ein gwlad a wêl fod y 'gwaed a redodd ar y groes o oes i oes i'w gofio'. '"Iddo ef" a'i haeddiant.' Amen.